

1. STATWS BRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Dim
DU a Chymru	Blaenoriaeth CGB Prydain Rhestr A74 Cymru ^a
Gwynedd	Dim

1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae'r Pryf Lladd^b wedi ei gofnodi mewn llai na phedwar deg o safleoedd yng Nghymru.

1.3 Statws yng Ngwynedd^c

Mae cofnodion diweddar yn Llŷn igyd Gors Geirch er fod cofnodion hanesyddol o Nefyn a Mynydd Cilan

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO'R RHYWOGAETH YNG NGWYNEDD

- Colli tir gwair sydd heb ei wella a rhostir, sy'n arwain at ddarnio cynefinoedd
- Defnydd o driniaethau di-lyngyru i stoc e.e. avermectins, sydd yn rhwystro datblygiad larfa chwilen y dom
- Newid mewn rheolaeth stoc o system gymysg (gwartheg a defaid) i ddefaid yn unig i bob pwrpas.

3. CGR/CGC CYSYLLTIEDIG YNG NGWYNEDD

Rhostir yr iseldir, Glaswelltir sych asid yr ucheldir, Dolydd gwair a porfeydd yr iseldir

4. GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae Cors Geirch yn SoDdGA, a rhan ohono hefyd yn GNC

4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Mae SoDdGA Cors Geirch yn cael ei reoli gydag ystyriaeth ofalus i'r rhywogaeth yma
- Y Pryf Lladd yw un o'r rhywogaethau sydd yn gymwys ar gyfer cyllid gan Gronfa Her Rhywogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

^a Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wyllt yng Nghymru - Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. Hawlfraint y Goron 2003.

^b *Asilus crabroniformis*

^c O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb

4.3 Archwilio, ymchwilio a monitro

- Ni wyddys am ddim

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

- I sefydlu statws presennol y Pryf Lladd yng Ngwynedd
- I amddiffyn, cynnal a gwella poblogaethau Pryf Lladd a chynefinoedd cysylltiedig

6. GWEITHREDU ARFAETHEDIG

Côd	Gweithredu	Partner(iaid) ^d
Polisi a Deddfwriaeth		
1	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn gydnaws a chadwraeth y pryf lladd. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
2	Os oes fwy o boblogaethau yn cael eu hadnabod yng Ngwynedd, ystyried dynodi nhw fel Safleoedd Bywyd Gwyllt TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CBNGC, CCGC
Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd		
	Dim wedi e hadnabod	
Cyngor		
	Ni wyddys am ddim	
Arolwg, ymchwil a monitro		
3	Arolygu cynefinoedd addas i'r Pryf Lladd, o fewn dalgylch ardaloedd presennol neu ddiweddar yng Ngwynedd TARGED/AMSERLEN: I'w osod. Erbyn 2006	CCGC, CG
4	Hybu aolygon ehangach i benderfynu dosbarthiad cyffredinol y Pryf Lladd yng Ngwynedd TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CG
Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd		
5	Codi ymwybyddiaeth ynghylch y Pryf Lladd yng Ngwynedd, gan bwysleisio'r materion cadwraeth sydd yn wynebu'r pryfed hynny sy'n gysylltiedig â thail (yn bennaf, cynnyrch llyngyru systemig), drwy fynychu sioeau a digwyddiadau amaethyddol lleol, creu cyhoeddusrwydd lleol, a chynhyrchu deunydd addysgu/cynghori. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, CBNGC

^d Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gydag ysgrifen dywyll, gweler adran 7.2 am eglurhad ar y byrfoddau

7 PARTNERIAID A CHYFLEON

7.1 Prif bartner ar gyfer CGR

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

7.2 Partneriaid allweddol

Cyngor Gwynedd (CG)

Cymdeithas Bud Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

7.3 Cyfleon

Dim wed eu hadnabod

8 DIOLCHIADAU

Awdur: Nerys Davies (CG)

Ymgynghorwyr: Dylan Lloyd (CCGC), Mike Howe (CCGC)

Lluniau: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, **CGC:** Cynllun Gweithredu Cynefin, **GNC:** Gwarchodfa Natur Cenedlaethol, **CGR:** Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, **SoDdGA:** Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Fersiwn 1, 2004